Cyngor Cymuned Tref Alaw

Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor Nos Fawrth, 14 Mehefin 2016 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Cadeirydd Ifan Rowlands, Peredur Hughes, Trefor Jones, Owain Owen, Ffion Roberts, Cynghorydd Llinos Huws

Ymddiheuriadau Glyn Hughes, Arthur Jones, Geraint Owen, Iona Phillips, John T Rowlands, Hugh Williams

Ychwanegol

1 **Cofnodion cyfarfod Mai 2016**

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Mai 2016 gyda Trefor Jones yn cynnig a Ffion Roberts yn eilio.

2 **Datgan diddordeb :** Cyng Llinos Huws (3i)

3 **Materion â codwyd o cofnodion Mai**

i Melin Llynnon

Adroddwyd Cyng Huws y bod rhai ymgeiswyr wedi cysylltu â CSYM ar gyfer gofalu am y Felin a bod estyniad o 6 wythnos wedi ei rhoi i fudiadau cael ddigon o amser i greu cynllun busnes ayyb.

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn ag amodau sut y gall y safle ei ddefnyddio, TUPE'r staff ayyb, cytunwyd gyda'r penderfyniad blaenorol i beidio rhoi cais ond i fod yn hollol fodlon helpu a gweithio gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus.

ii Insiwrans

Roedd y Clerc wedi holi gyda Zurich os bu'n bosib cael Ffrindiau Llynnon fel is-bwyllgor i helpu nhw gydag insiwrans a'r canlyniad oedd nad oedd yn bosib.

iii Kiln charcoal y Tai Crwn

Disgwyl cael y kiln yn ôl yn y Felin yn ystod yr wythnos cyntaf o Orffennaf.

iv Archwilio Cyfrifon 2015-16

Roedd Cyfrifon 2015-16 wedi ei archwilio'n fewnol gan Mr JD Roberts a derbynwyd eu bod yn gywir gyda'r Cadeirydd yn arwyddo'r Ffurflen Flynyddol.

4 **Ceisiadau Cynllunio**

47C13B - Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol ar gofer codi sied amaethyddol ar dir yn / Application to determine whether prior approval is required for the erection of an agricultural shed on land at : *Treriffri, Carmel*

Derbyn y cais ond dim yn deallt pam mae'r Awdyrdod Cynllunio yn gofyn wrth cyngor cymuned pan nhw sy gyda'r ateb.

5 **Côd Ymddygiad ar gofer Aelodau Etholedig** : mabwysiadu'r Côd diwygiedig

Mae'r ddogfen yn un swyddogol sydd rhaid cael ei dderbyn a felly derbyniwyd fel y tablwyd gydag Owain Owen yn cynnig a Peredur Hughes yn eilio.

6 **Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth** / Independent Remuneration Panel for Wales [Panel's Annual Report http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/160217-irp-annual-report-16-17-en.pdf.]

Nodwyd

7 **Neuadd Bentref / Maes parcio**

Penderfynwyd bod dyfodol y Neuadd Bentref wedi codi gymaint dros y blynyddoedd blaenorol bu'r ffordd gorau i symud ymlaen oedd trefnu cyfarfod cyhoeddus i weld faint o ddiddordeb a help oedd ar gael gan y gymuned i greu Pwyllgor Neuadd newydd/Grŵp Cymunedol ar gyfer ei reoli.

Cyfarfod Cyhoeddus : 14 Gorffennaf am 7.30pm - cyhoeddi mor eang â phosib.

Cyngor Cymuned Tref Alaw

8 **Speed awareness yn Llanddeusant**

Mae cerbyd yn mynd yn gyflym drwy bentref Llanddeusant. Penderfynwyd cael plant yr ardal i creu arwyddion 'slofwch i lawr' ayyb.

9 **Anglesey Online**

Talwyd £24.94 i cadw safle we TREFALAW.CYMRU

Roedd y Clerc angen help gyda manylion i ddisgrifio ardal Tref Alaw - Gwlad y Melinau.

10 **National Grid** - Cysylltiad National Grid yng Ngogledd Cymru - ymgynghoriad arfaethedig yr Arolygiaeth Gynllunio

Nodwyd.

11 **Hyfforddiant** :

27 Gorffennaf - Medrwn Môn yn Cartio Môn - FREE!! : i) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)/Introduction to the Wellbeing of Future Generations (Wales) Act, ac ii) Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu a'r cyhoedd yng Nghymru/Introduction to the National Principles for Public Engagement in Wales
26 Mehefin - UnLlais Cymru : Y Cyngor fel Cyflogydd yn Yr Institiwt, Caernarfon
Neb yn gallu mynd i'r hyfforddiant yma.

12 **Gwasanaeth Sul y Cadeirydd** 3/7/16 Chairman's Sunday Service

Yn anffodus nad oedd y Cadeirydd ar gael.

Taliadau:	I mewn		
	Allan	Anglesey Online/Tudor Thomas (we)	£24.94
		Zurich insurance	£367.56

Er wybodaeth / ebost:

SLCC/NALC: 2016-2018 National salary award : SLCC/NALC
CSYM: Safleoedd dros dro ar gyfer SipsiwnTheithwyr/Temporary sites for Gypsies and Travellers Recriwtio Canfaswyr/Recruitment of Canvassers 2016 - Cofrestr Etholiadol/Electoral Register Ethol Cadeirydd ac Is-Cadeirydd